## ADRAN 1. BETH MAE LLYWODRAETH CYMRU'N YSTYRIED EI WNEUD A PHAM?

Mae Gorchymyn Pysgodfeydd Wystrys a Chregyn Gleision Afon Menai (Dwyrain) yn dod i ben ar 2 Ebrill 2022. Gwnaeth Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfeydd Afon Menai (MSFOMA) gais am Orchymyn newydd ar 18 Awst 2018 er mwyn cael parhau i gynhyrchu ac er mwyn cael buddsoddi ymhellach a diogelu busnesau. Bydd y Gorchymyn newydd yn dod i rym ar 2 Ebrill 2022.

Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn ymdrin ag ardal 694.48 hectar (ha) o faint, a chafodd ei wneud yn unol ag Adran 1 (3) (c) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967.

Yn y tymor byr, disgwylir i'r bysgodfa weithredu fel y mae ar hyn o bryd, gydag wyth magwrfa o dan les breifat, sef ardal y bysgodfa a reoleiddir, ond gyda'r hyblygrwydd i addasu i'r galw ac i amodau'r bysgodfa.

Mae'r bysgodfa'n cynnal yn uniongyrchol tuag 20 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ac ers 2015 mae'n cynhyrchu £1m - £4m bob blwyddyn i economi Cymru[1]. Mae'r ystod hon yn cynnwys cyfnod pan gafwyd diffyg yng ngwelyau grawn cregyn gleision gwyllt, a gyfyngodd ar faint o rawn cregyn gleision oedd ar gael i'w blannu yn y bysgodfa.

### Cyd-destun

Mae Gorchymyn Pysgodfa Unigol yn rhoi hawl i'r grantî, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau ac eithriadau, i osod, lluosogi, llusgrwydo a chymryd pysgod cregyn penodedig, ac i bysgota amdanynt, o fewn terfynau'r bysgodfa. Mae Gorchymyn Pysgodfa Unigol yn trosglwyddo'r pysgod cregyn y mae'n ymwneud â nhw yn eiddo cyfreithiol i'r grantî. Mae'r trefniant hwn yn gosod dyframaethu ar sail ddiogel.

Mae Gorchymyn Rheoleiddio yn rhoi hawl i reoleiddio pysgodfa, gan ganiatáu i'r person y rhoddir y gorchymyn iddo ("y grantî") gyfyngu ar bwy sy'n cael llusgrwydo a physgota am bysgod cregyn penodedig, a'u cymryd, o fewn terfynau'r bysgodfa, neu ran o'r bysgodfa, a reoleiddir lle ceir arfer yr hawl. Defnyddir y trefniant hwn yn gyffredinol i reoleiddio pysgodfa naturiol, gyda grantî'r Gorchymyn yn gweithredu fel y rheoleiddiwr.

Mae'r Gorchymyn presennol yn Orchymyn hybrid, sy'n rhoi'r hawl i MSFOMA reoleiddio pysgodfa ac i neilltuo pysgodfa. Mae'r Gorchymyn presennol yn cynnal wyth magwrfa ar les breifat fel pysgodfa unigol, sef yr ardal ddynodedig. Mae gweddill ardal y bysgodfa'n cael ei rhedeg fel pysgodfa a reoleiddir. Cesglir grawn cregyn gleision o welyau dros dro mewn mannau eraill a chânt eu gosod, eu tyfu a'u cynaeafu o fewn diogelwch y bysgodfa unigol. Y

[1] Ffigurau Cefas "Dyframaethu yng Nghymru"

ffocws yn y bysgodfa unigol yw’r cregyn gleision (*Mytilus edulis*), er bod y gorchymyn yn caniatáu tyfu wystrys.

Gyda'r Gorchymyn arfaethedig, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu galluogi MSFOMA i barhau i redeg y bysgodfa. Bydd hynny’n gofyn am ddrafftio Gorchymyn newydd. Er y gellid ystyried bod hyn cystal ag adnewyddu gorchymyn, mae'n bwysig nodi bod hwn yn Orchymyn newydd penodol, sy'n dod i rym pan ddaw'r Gorchymyn presennol i ben. Felly, bydd unrhyw heriau yn ymwneud â’r Gorchymyn hwn yn unig, ac nid ar gynnwys na phroses y Gorchymyn blaenorol.

## Datblygiad y polisi a’i alinio â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

## Y tymor hir

Bydd y Gorchymyn fel y mae yn para am 35 mlynedd. Er bod hwn yn dymor hwy nag sy'n arferol (7 mlynedd yw’r arferol), mae dadansoddiad ariannol MSFOMA yn cyfiawnhau ac yn cefnogi tymor o 35 mlynedd gan ei fod yn darparu sylfaen hirdymor i'r busnesau sy'n gweithredu yn y bysgodfa unigol, gan eu galluogi i sicrhau'r buddsoddiad ariannol sy'n angenrheidiol i'r busnesau.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn cefnogi cadw pysgodfa hirsefydledig, cynaliadwy ac economaidd bwysig. Mae'r magwrfeydd ar les yn darparu trosiant o hyd at £4 miliwn y flwyddyn ac yn cyflogi tua 20 o staff medrus, cyfwerth ag amser llawn. Yn ogystal, bydd y Gorchymyn arfaethedig yn cefnogi gwahanol wasanaethau ategol, megis proseswyr, bwytai a marchnadoedd ledled y DU ar gyfer cregyn gleision o Gymru. Gall cyfleoedd fodoli yn y dyfodol i gynyddu'r ymdrech bysgota, gan gynyddu hefyd nifer ac amrywiaeth y bobl o bosibl sy’n cymryd rhan. Gall heriau posibl yn y dyfodol gynnwys effeithiau hinsawdd sy’n newid a newid tymheredd dŵr y môr yn Afon Menai i lefel na fydd y biota presennol yn gallu ei goddef, a gallai hyn, o bosibl, effeithio ar y stoc a'i ffynonellau bwyd.

Ym mis Ionawr 2021, daeth cyfnod pontio ymadael â’r Undeb Ewropeaidd i ben. Er gwaetha’r cytundeb a drawyd rhwng y DU a'r UE, mae llawer o ddiwydiannau pysgota wedi dioddef yn ariannol oherwydd rheoliadau'r UE ar allforio Molysgiaid Dwygragennog Byw (LBMs) o ddyfroedd dosbarth B. Rhaid puro neu brosesu molysgiaid o’r fath o ddyfroedd dosbarth B cyn caniatáu eu bwyta gan bobl.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl i fusnesau gael Tystysgrif Iechyd Allforio i allforio molysgiaid o’r fath o ddyfroedd dosbarth B. Hyd yma, nid yw'r mater wedi'i ddatrys. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl rhagweld beth fydd effaith hyn ar y diwydiant pysgod cregyn. Gallai’r tarfu hwn a tharfu pellach ar y diwydiant pysgod cregyn arwain at ganlyniadau ariannol difrifol i'r diwydiant cyfan.

Er mai hawliau pysgodfa unigol sydd drechaf yn y model gweithredu presennol, byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn gallu sicrhau sefyllfa gydradd rhwng y bysgodfa a reoleiddir a’r bysgodfa unigol neu hyd yn oed droi’r fantol o blaid pysgodfa a reoleiddir, gan ddibynnu ar rymoedd y farchnad. Beth bynnag sy'n digwydd i'r model gweithredu, byddai hyblygrwydd Gorchymyn hybrid yn galluogi ac yn hwyluso cydweithio a chyd-reoli rhwng y rhai sy'n ymwneud â'r bysgodfa o ran ffermio, marchnata a chynhyrchu cynnyrch uwch eu gwerth. Byddai'n galluogi rheolaeth leol ac yn annog cydweithio â rhanddeiliaid lleol i sicrhau manteision cymdeithasol ac economaidd gorau posibl y bysgodfa mewn cyfnod ansicr.

Fel un o ofynion Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (Rheoliadau 2017), cynhaliodd Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o effeithiau andwyol posibl gweithgareddau a awdurdodir gan y Gorchymyn newydd ar nodweddion Safleoedd Morol Ewropeaidd.

Y cyfnod hwyaf y caiff HRA farnu na fydd unrhyw effeithiau andwyol yw 7 mlynedd ac felly rhaid ei adolygu bob 7 mlynedd.

Mae’r HRA yn barnu na chaiff y Gorchymyn arfaethedig effaith andwyol ar integriti unrhyw Safle Ewropeaidd.

Mae cwmpas y Gorchymyn yn caniatáu ystyried ffermio wystrys. Er nad oes unrhyw rywogaethau wystrys wedi'u nodi ar hyn o bryd, wystrys y Môr Tawel (Crassostrea gigas), sy'n cael ei ffermio yng Ngorllewin Menai y tu allan i Reol Sefydlog ar hyn o bryd, yw'r dewis tebygol.

Pe bai Grantî'r Gorchymyn yn cynnig ffermio unrhyw rywogaethau wystrys yn yr ardal ddynodedig, byddai unrhyw ddatblygiad yn ddarostyngedig i ganfyddiadau HRA i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw EMS.

**Atal**

Bydd y cynnig hwn yn cefnogi ac yn cadw pysgodfa sy’n cael ei rheoli’n briodol ac sy'n darparu swyddi lleol. Bydd MSFOMA yn cysylltu ac yn cydweithio gyda busnesau lleol, cyfleusterau hamdden a'r cyhoedd i sicrhau nad yw gweithgareddau’r bysgodfa’n cael effaith negyddol ar eu gweithgareddau nac ar eu gallu i ffynnu'n economaidd neu'n gymdeithasol.

Gyda Gorchymyn ar waith, gall Llywodraeth Cymru asesu a monitro'n briodol unrhyw weithgareddau neu ddatblygiadau yn y dyfodol a sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu yn yr ardal ddynodedig a’r tu allan iddi.

Mae'r cynnig yn sicrhau ffynhonnell incwm i'r diwydiant ac yn dod â manteision i'r ardal drwy ei gyfraniadau i'r economi leol. Bydd sicrhau bod y bysgodfa hon yn bresennol yn y

blynyddoedd i ddod yn cyfrannu at les yr ardal, yn darparu gwaith ac yn helpu i fynd i'r afael â thlodi.

## Cymhathu

A siarad yn gyffredinol, bydd bwriadau'r Gorchymyn arfaethedig yn cymhathu â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy gynnal pysgodfa gynaliadwy a chydnerth a reolir yn dda. Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn parhau i gynnal tua 20 o swyddi (FTE), cymunedau pysgota lleol a gwasanaethau ategol, er enghraifft, proseswyr pysgod cregyn.

**Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn ceisio sicrhau bod pysgodfa gynaliadwy weithredol yn parhau am oes y Gorchymyn, gan gefnogi cyfleoedd gwaith lleol yn y diwydiant pysgota a diwydiannau cysylltiedig. Mae cymhathu'r gwaith â gofynion cadwraeth natur statudol a chynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn sicrhau bod y cynigion yn ystyried unrhyw effeithiau andwyol ar nodweddion Safleoedd Morol Ewropeaidd a warchodir. Bydd diogelu nodweddion o'r fath yn rhan o amodau'r les a'r drwydded a rhaid i bob pysgotwr gadw atynt.**

## Cydweithio

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r ymgeisydd gydol y broses o ddatblygu'r cynnig hwn. Nod y cydweithio hwn yw gwneud y Gorchymyn arfaethedig yn deg ac yn addas i'r diben. Mae'r rhanddeiliaid eisoes wedi gweithio a negodi gyda'r gymuned leol ac aelodau o'r Gymdeithas Hwylio Frenhinol i roi mesurau lliniaru amrywiol ar waith i leihau'r gwrthdaro rhwng gweithgareddau'r bysgodfa a gweithgareddau hamdden, iechyd a busnes yn yr ardal gyfagos, er enghraifft, y clwb hwylio.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, gofynnodd swyddogion am gyngor gan dimau mewnol perthnasol ac CNC. Bydd parhau i gydweithio ag arbenigwyr gwyddorau pysgodfeydd, CNC a'r ymgeisydd yn hanfodol i lwyddiant y gweithgareddau o dan y Gorchymyn arfaethedig.

## Cyfranogaeth rhanddeiliaid ac ymgynghori â nhw

Dechreuodd Llywodraeth Cymru weithio gyda'r ymgeisydd yn 2018 i ddatblygu Gorchymyn Pysgodfeydd newydd.

Yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf 1967, cynhaliodd yr ymgeisydd ymgynghoriad cyhoeddus fis o hyd rhwng 8 Ebrill ac 8 Mai 2021. Cyhoeddwyd y Gorchymyn Pysgodfeydd arfaethedig yn Fishing News, y Daily Post a'r Western Mail ac roedd ar gael ar wefan yr ymgeisydd. Fe'i cyhoeddwyd hefyd yn adran y Môr a Physgodfeydd ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, ysgrifennodd yr ymgeisydd a Llywodraeth Cymru at eu rhanddeiliaid i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad.

Daeth yr ymgynghoriad ar y Gorchymyn arfaethedig i ben ar 8 Mai gyda chyfanswm o 24 o ymatebion wedi dod i law (**Tabl 1**); Roedd 33% yn gwrthwynebu, roedd 25% yn gefnogol ac

roedd 42% yn ymholiadau a sylwadau nad oeddent yn cefnogi nac yn gwrthwynebu’r Gorchymyn arfaethedig.

Tabl 1: Ymatebion a ddaeth i law

| **Ymatebion a ddaeth i law** | **Nifer** | **Canran yr ymatebion** |
|---|---|---|
| Cefnogi | 6 | 25% |
| Gwrthwynebu | 8 | 33% |
| Ymholiadau | 4 | 17% |
| Niwtral/Dim sylw | 2 | 8% |
| Sylwadau | 4 | 17% |

Rydym wedi carfanu’r sylwadau’n dri grŵp: yn gyntaf, y rhai sy'n ymwneud ag angorfeydd a mordwyfeydd cychod pleser ('ardal anghydfod’), yn ail y rhai sy'n ymwneud â phryderon amgylcheddol ac yn drydydd, grŵp amrywiol.

Gwahoddodd MSFOMA y gwrthwynebwyr i gyfarfod i drafod eu pryderon. Cyfarfu tri o'r pedwar gwrthwynebydd a oedd wedi mynegi pryderon ynghylch ffin y bysgodfa a'r effaith ar angorfeydd, â MSFOMA a dywedon nhw y bydden nhw’n tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl pe bai ardal y bysgodfa'n cael ei newid i eithrio'r angorfeydd ('ardal anghydfod').

Rydym wedi lleihau’r pryderon ynghylch ardaloedd anghydfod drwy ddrafftio'r Gorchymyn a newid y ffin i gadw ardal yr anghydfod allan o'r bysgodfa. O ran y sylwadau a dderbyniwyd ar faterion amgylcheddol, ystyriwyd y rhan fwyaf o'r materion a godwyd gan yr HRA a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cais. Nid yw'r HRA wedi nodi unrhyw effeithiau andwyol ar integriti nodweddion ardal y bysgodfa, o ganlyniad i weithgareddau'r bysgodfa o dan y Gorchymyn. Ystyriwyd ar wahân y sylwadau ar faterion amgylcheddol na wnaeth yr HRA ymdrin â nhw, ac fe'u nodwyd mewn cyngor cynharach (MA/3342/21)

Yn olaf, datryswyd yr ymholiadau amrywiol yn uniongyrchol gyda'r cynrychiolwyr ac ystyriwyd awgrymiadau drafftio gan y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth ddrafftio'r Gorchymyn.

Bydd crynodeb llawn o'r ymatebion ar gael i'r cyhoedd.

*Yn ogystal â’r pum ffordd o weithio uchod, ystyriwch y meysydd canlynol:*

## Effaith

Prif ddiben y Gorchymyn yw caniatáu i ddiwydiant proffidiol, cynaliadwy ac sydd wedi ennill ei blwyf barhau i weithredu, yn gyfreithiol ac yn egscliwsif, yn yr ardaloedd a ddisgrifir yn y Gorchymyn arfaethedig. Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn helpu MSFOMA a gweithredwyr y bysgodfa i barhau i fuddsoddi yn y bysgodfa bwysig hon a'i rheoli er lles cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd hynny'n diogelu bywoliaeth ac yn gwarantu cyfraniadau i economi Cymru. Er nad yw cynnal y status quo, ynddo'i hun, yn gyfiawnhad i osgoi newid, mae hanes y bysgodfa yn dangos bod hon yn ymdrech werth ei chynnal.

Pe bai'r Gorchymyn presennol yn dod i ben, nid MSFOMA fyddai'n rheoli'r bysgodfa cregyn gleision mwyach. Yn hytrach byddai'n dychwelyd i fod yn bysgodfa gyhoeddus. Byddai hynny'n golygu y daw'r ardal o dan Orchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig) (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sydd am gasglu dros 5kg o gregyn gleision y dydd wneud cais i'r Gweinidog am drwydded i wneud hynny.

Gan fod y stoc cregyn gleision yn cael ei hatgyfnerthu wrth i ddeiliaid y magwrfeydd cregyn gleision yn yr ardal ddynodedig ychwanegu grawn cregyn gleision, pe bai'r gweithgaredd hwn yn dod i ben byddai'r stoc cregyn gleision ynghyd â'r incwm a'r manteision i'r fioamrywiaeth y mae'n eu creu yn lleihau'n sylweddol.

Mae cyhoeddi'r Gorchymyn fel y'i cynigiwyd yn osgoi'r baich o ran arian ac adnoddau o roi trwyddedau ar gyfer y bysgodfa gan Lywodraeth Cymru ac yn caniatáu i grŵp sydd â hanes o redeg pysgodfa lwyddiannus barhau i'w rheoli.

## Costau ac Arbedion

Daw'r gyllideb ar gyfer adnoddau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r cynnig hwn o Gyfarwyddiaeth y Môr a Physgodfeydd.

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol. Bydd yr ymgeisydd yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gwneud y Gorchymyn arfaethedig a chynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Gorchymyn drafft. Bydd unrhyw gostau a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad, h.y. gorchymyn ymchwiliad cyhoeddus, yn cael eu had-dalu gan yr ymgeisydd.

Bydd unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â rheoli'r bysgodfa o dan y Gorchymyn yn cael eu talu gan yr ymgeisydd.

## Mecanwaith

Bydd Gorchymyn Pysgodfa Cregyn Gleision ac Wystrys Afon Menai (Dwyrain) 2022 yn Offeryn Statudol a gyflwynir gan ddefnyddio Adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn wedi'i gwblhau ac ar gael.

## ADRAN 8. CASGLIAD

(Pwysig: cyhoeddir yr adran hon)

**8.1 Sut mae'r bobl y bydd y cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnyn nhw yn cael cyfrannu at ei ddatblygu?**

Dechreuodd Llywodraeth Cymru weithio gyda'r ymgeisydd yn 2018 i ddatblygu Gorchymyn Pysgodfeydd newydd.

Yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf 1967, cynhaliodd yr ymgeisydd ymgynghoriad cyhoeddus fis o hyd rhwng 8 Ebrill ac 8 Mai 2021. Cyhoeddwyd y Gorchymyn Pysgodfeydd arfaethedig yn Fishing News, y Daily Post a'r Western Mail ac roedd ar gael ar wefan yr ymgeisydd. Fe'i cyhoeddwyd hefyd yn adran y Môr a Physgodfeydd ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, ysgrifennodd yr ymgeisydd a Llywodraeth Cymru at eu rhanddeiliaid i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad.

Cafodd hysbysiad yr ymgynghoriad a'r llythyrau a oedd yn hysbysu rhanddeiliaid eu cyhoeddi'n ddwyieithog, gan adleisio polisi Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg.

Derbyniwyd cyfanswm o 24 o ymatebion; Roedd 33% yn gwrthwynebu, roedd 25% yn gefnogol ac roedd 42% yn ymholiadau a sylwadau nad oeddent yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig.

Gwahoddodd MSFOMA y gwrthwynebwyr i gyfarfod i drafod eu pryderon. Cyfarfu tri o'r pedwar gwrthwynebydd a oedd wedi mynegi pryderon ynghylch ffin y bysgodfa a'r effaith ar angorfeydd, â MSFOMA a dywedon nhw y bydden nhw'n tynnu eu gwrthwynebiad yn ôl pe bai ardal y bysgodfa'n cael ei newid i eithrio'r angorfeydd ('ardal anghydfod').

Rydym wedi lleihau'r pryderon ynghylch ardaloedd anghydfod drwy ddrafftio'r Gorchymyn a newid y ffin i gadw ardal yr anghydfod allan o'r bysgodfa. O ran y sylwadau a dderbyniwyd ar faterion amgylcheddol, ystyriwyd y rhan fwyaf o'r materion a godwyd gan yr HRA a gynhaliwyd mewn perthynas â'r cais. Nid yw'r HRA wedi nodi unrhyw effeithiau andwyol ar integriti nodweddion ardal y bysgodfa, o ganlyniad i weithgareddau'r bysgodfa o dan y Gorchymyn. Ystyriwyd ar wahân y sylwadau ar faterion amgylcheddol na wnaeth yr HRA ymdrin â nhw, ac fe'u nodwyd mewn cyngor cynharach (MA/3342/21)

Yn olaf, datryswyd yr ymholiadau amrywiol yn uniongyrchol gyda'r cynrychiolwyr ac ystyriwyd awgrymiadau drafftio gan y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth ddrafftio'r Gorchymyn.

Mae'r Gorchymyn drafft terfynol wedi'i ddatblygu dros gyfnod o fwy na 18 mis, gan gynnwys ymgysylltu â'r ymgeisydd, rhanddeiliaid mewnol ac CNC, a chafwyd nifer o fersiynau.

**8.2 Beth yw'r effeithiau pwysicaf, positif a negyddol?**

Prif amcan y cynnig hwn yw helpu pysgodfa gynaliadwy, economaidd bwysig sydd wedi ennill ei phlwyf i barhau.

Mae ardal y Gorchymyn yn rhan ddwyreiniol Afon Menai. Mae 625 hectar ohoni wedi'i dynodi'n 8 magwrfa cregyn gleision preifat, lle gellir tyfu cregyn gleision. Mae'r magwrfeydd hyn wedi'u lesio gan Gymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfeydd Afon Menai (MSFOMA) i fusnesau dyframaethu preifat. O dan delerau'r les, mae gan y tenantiaid 'hawliau unigol' fel perchnogion pysgodfeydd preifat o fewn eu magwrfeydd. Cesglir grawn cregyn gleision, pan fyddant ar gael, o welyau grawn naturiol yng Ngogledd Cymru a mannau eraill a'u symud a'u gosod ar wely'r môr yn y magwrfeydd yn ardal y Gorchymyn a'u cynaeafu pan fyddant yn aeddfed. Caiff cregyn gleision eu cynaeafu drwy ddefnyddio llongau sy'n tynnu 'llusgrwydi' ar draws y gwelyau cregyn gleision yn y magwrfeydd yn Afon Menai. Mae'r ardaloedd a reoleiddir o fewn yr ardaloedd rhyng-lanwol a gellir eu hagor i'w casglu â llaw gyda thrwydded pan fydd digon o gregyn gleision i gynnal y gweithgaredd. Dim ond am ychydig amser y bydd grawn cregyn gleision yn y golofn ddŵr ac ymhen amser, gallant fod yn brin mewn unrhyw ardal benodol.

Effaith gadarnhaol arwyddocaol yw bod y bysgodfa'n cael parhau i weithredu'n gyfreithlon, ac yn unol â chwmpas ac amodau yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r mesurau hyn yn galluogi'r gweithredwyr a Llywodraeth Cymru i liniaru unrhyw weithgareddau a allai effeithio'n negyddol ar yr ardaloedd gwarchodedig arbennig yn Afon Menai. Bydd y Gorchymyn newydd yn rhoi sicrwydd y bydd y bysgodfa'n parhau wedi'r dyddiad y daw'r Gorchymyn presennol i ben ym mis Ebrill 2022.

**Disgrifiad o agweddau ar yr amgylchedd y bydd y prosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol arnynt:**

Fel y nodir yn yr HRA, ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol ar integriti unrhyw Safle Morol Ewropeaidd o ganlyniad i'r cynllun neu'r prosiect arfaethedig hwn. Daethpwyd i'r casgliad hwnnw wedi cynnal y "Prawf o'r Effaith Arwyddocaol Debygol" (TLSE) a'r Asesiad Priodol yn unol ag Erthygl 6.3 o Gyfarwyddeb Cyngor y CE 92/43/EEC.

**8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn cynyddu'r cyfraniad at ein hamcanion llesiant a'n saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol?**

O ystyried cwmpas y cynnig hwn, ychydig o effeithiau a nodwyd. Yn wir, daw llawer o'r effeithiau y bydd angen mynd i'r afael â hwy o fethiant i gyflwyno'r Gorchymyn arfaethedig hwn a chynnal y cynllun rheoli presennol. Gellir llwyr liniaru hyn drwy sicrhau bod y Gorchymyn arfaethedig yn cael ei roi yn ei le cyn i'r Gorchymyn presennol ddod i ben.

**8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?**

Byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn cael ei roi am gyfnod o 35 mlynedd er mwyn i fusnesau allu bod yn economaidd hyfyw. Caiff y Gorchymyn, drwy delerau les (pysgodfa unigol) neu drwydded (pysgodfa a reoleiddir), osod amodau neu gyfyngiadau ar y deiliad, er enghraifft pennu dulliau cynaeafu pysgod cregyn, a gellir rhoi amodau gwahanol i rannau gwahanol o ardal y Gorchymyn. O dan y Gorchymyn arfaethedig, bydd y lesau a roddir gan MSFOMA i ffermwyr pysgod cregyn yn para am 7 mlynedd. Bydd cyfle felly i swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddiwedd pob prydles 7 mlynedd i adolygu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sicrhau ei fod yn para'n addas i'r diben, ar sail adolygiad gwyddonol trylwyr o'r amodau ecolegol ac amgylcheddol presennol yn ardal y Gorchymyn. Os bydd angen, gall Llywodraeth Cymru gydweithio â MSFOMA i liniaru effeithiau negyddol unrhyw weithrediadau.

Hefyd, mae MSFOMA wedi gosod nifer o reolau rheoli ynghylch cynaeafu'r ardal a Reoleiddir (casglu â llaw) (isod):

1. Rheoli mewnbynnau

Dim ond os yw'r Gymdeithas wedi penderfynu bod ymdrech bysgota yn gynaliadwy o ran y stociau cregyn gleision yn y bysgodfa, ansawdd yr amgylchedd, a hyfywedd economaidd pysgota am gregyn gleision yn y Gorchymyn Pysgodfeydd y rhoddir trwyddedau i ganiatáu codi cregyn gleision.

2. Rheoli allbynnau: os penderfynir y dylai'r Gymdeithas roi trwyddedau ar gyfer y Bysgodfa a Reoleiddir:-

a. Gall y Gymdeithas gymhwyso un neu fwy o'r mesurau rheoli canlynol i'r Bysgodfa a Reoleiddir:-

i. Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir (TAC) i sicrhau bod y pysgodfeydd yn gynaliadwy;
ii. Mesurau gofodol i gyfyngu ar yr ardal lle caniateir pysgota; a
iii. Mesurau amserol i gyfyngu ar y cyfnod pan ganiateir pysgota.

b. Gall y Gymdeithas roi cwota i bob gweithredwr a all gyfyngu ar y swm y caiff ei gasglu mewn cyfnod penodol o amser.


## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llawn i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, ac yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu hefyd wedi'i nodi fel un o 7 nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ogystal, mae rhwymedigaeth statudol arnom i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu ystyried sut mae unrhyw un o bolisïau Llywodraeth Cymru yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema i strategaeth *Cymraeg 2050.*



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu'r gweithgareddau sy'n gallu effeithio ar yr iaith.

Yn gyffredinol, os oes potensial i'ch polisi effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg, ac felly ar y Gymraeg ei hun.

1. Rhif cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (wedi'i gynnal gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@gov.wales): **01/07/2021**

2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?

   Ydy. Drwy ddiogelu diwydiant mewn ardal Gymraeg, mae'r cynnig hwn yn creu amodau ffafriol i'r Gymraeg allu ffynnu. Gan fod gan y diwydiant nifer o siaradwyr Cymraeg, bydd darparu cymorth economaidd yn eu galluogi i barhau i weithio a byw mewn ardal Gymraeg ac aros yno.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac esboniwch sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r sefyllfa o ran y Gymraeg. **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (mewn ffordd gadarnhaol a/neu negyddol)? Dylech nodi'ch ymatebion i'r canlynol yn eich ateb i'r cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**

   Ni chaiff y cynnig hwn effaith andwyol ar y Gymraeg. Ni fydd yn effeithio ar addysg/gwasanaethau Cymraeg na'r defnydd o'r Gymraeg.

   Siaredir a chefnogir y Gymraeg gan lawer o'r Cyfarwyddwyr, ffermwyr cregyn gleision a rhanddeiliaid eraill yn y bysgodfa, ac yn eang yn y gymuned leol. Mae'r bysgodfa, o dan y Gorchymyn Pysgodfa Unigol, wedi cynnal y traddodiad o ffermio cregyn gleision yn Afon Menai (Dwyrain) am 60 mlynedd.

## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

(Pwysig: cyhoeddir yr adran hon)

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

Nid oes tystiolaeth i awgrymu y caiff y cynnig hwn effaith ar blant a phobl ifanc.

Gan fod y Gorchymyn ond yn ymdrin â physgodfa cregyn gleision a wystrys Afon Menai, nid oes angen cynnal asesiad llawn o'i effaith ar Hawliau Plant.

## 2. Esboniwch sut bydd y cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Nid oes tystiolaeth i awgrymu y caiff y cynnig hwn effaith ar blant a phobl ifanc.

Gan fod y Gorchymyn ond yn ymdrin â physgodfa cregyn gleision a wystrys Afon Menai, nid oes angen cynnal asesiad llawn o'i effaith ar Hawliau Plant.